**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Medi 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, S. Harris, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 44. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs E. M. Chard, B. Jones, B. Mellor a P. Prendergast.

## 45. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MEHEFIN/GORFFENNAF/AWST 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 282 | BT | 113.04 | Rhentu Llinell Rhyngrwyd |
| 253 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaethau Cyflogres Mehefin 2017 |
| 283 | HSBC | 7.31 | Taliadau Banc 17 Ebrill i 16 Mai 2017 |
| 284 | Cyngor Sir y Fflint | 4,178.89 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mai 2017 |
| 285 | HMRC | 2,582.87 | Didyniadau Treth Mai 2017 |
| 286 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,867.08 | Cyflogau Staff Mehefin 2017 |
| 287 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Digwyddiadau Mai 2016 |
| 304 | Sioned Graham-Cameron | 392.45 | Costau Cyfieithu |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Cyfraniad 3 o 12 |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Y Dreth Gyngor 2017/18 Taliad 3 o 10 |
| 307 | BT | 126.48 | Rhentu Llinell |
| 308 | Shire Leasing Group | 337.33 | Prydles System Ffôn Avaya |
| 309 | BT | 342.69 | Galwadau a Rhentu Llinell |
| 310 | BT | 85.64 | Galwadau a Rhentu Llinell |
| 252 | Cymdeithas Gymunedol y | 4,500.00 | Rhent ar gyfer Llawr Uchaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhyl | | Ffordd Wellington Chwarter 2 2017/18 |
| 253 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaethau Cyflogres Gorffennaf 2017 |
| 311 | Sage & Co | 18.00 | Gwasanaethau Cyflogres Gorffennaf 2017 – Gofynion Archwilio Ychwanegol |
| 312 | HSBC | 15.40 | Taliadau Banc 17 Mai i 16 Mehefin 2017 |
| 324 | Cyngor Sir y Fflint | 4,199.20 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mehefin 2917 |
| 325 | HMRC | 2,623.60 | Didyniadau Cyflogres Mehefin 2017 |
| 321 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,822.73 | Cyflogau Staff Gorffennaf 2017 |
| 322 | Gunsmoke Communications | 1,460.00 | Ffioedd Digwyddiadau Mehefin 3017 |
| 323 | Sioned Graham-Cameron | 243.55 | Costau Cyfieithu |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Cyfraniad 4 o 12 |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Y Dreth Gyngor 2017/18 Taliad 4 o 10 |
| 269 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Cynghorydd Ynni Cyfraniad 2 o 4 2017/18 |
| 271 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 6,650.00 | Taliadau Gwasanaeth ar gyfer Ffordd Wellington Chwarter 2 2017/18 |
| 331 | HSBC | 5.50 | Taliadau Banc 17 Mehefin i 16 Gorffennaf 2017 |
| 253 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaethau Cyflogres Mai 2017 |
| 332 | Cyngor Sir y Fflint | 4,178.89 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Gorffennaf 2017 |
| 333 | HMRC | 2,582.86 | Didyniadau Cyflogres Gorffennaf 2017 |
| 334 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,920.48 | Cyflogau Staff Awst 2017 |
| 335 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Digwyddiadau Gorffennaf 2017 |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Cyfraniad 5 o 12 |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Y Dreth Gyngor 2017/18 Taliad 5 o 10 |
| 336 | Neopost | 200.00 | Ychwanegiad Peiriant Ffrancio |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **65,391.97** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**46. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y misoedd i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ynghyd â manylion taliadau argyfwng a wnaeth yn ystod Seibiant y Cyngor dros yr haf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ychwanegiadau i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy.

a) *Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (13eg Gorffennaf – 31ain Awst 2017)*

| **Taliadau a wnaed dan Awdurdod Dirprwyedig i Glerc y Dref / Taliadau Argyfwng yn ystod y Seibiant** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
| 326 | Handmade Buffet Company | Arlwyo ar gyfer Dydd Sul Dinesig | 400.00 |
| 327 | Gunsmoke Communications | Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Digwyddiad Beatles Street | 33.85 |
| 328 | Mike Lewis | Llwyfan a Generadur ar gyfer Digwyddiad Beatles Street | 420.00 |
| 329 | NWN Media Ltd | Hysbyseb yn Cefnogi Carnifal y Rhyl | 42.00 |
| 330 | Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf ar gyfer Digwyddiad Beatles Street | 72.00 |
| | | | |
| **Cyfanswm Atodlen B: Taliadau i'w Cymeradwyo (yn ystod y Seibiant)** | | | **967.85** |
| | | | |
| **Atodlen B: Taliadau i'w Cymeradwyo** | | | |
| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
| 337 | Canda Copying Limited | Rhentu a Chopiau Du a Gwyn | 327.11 |
| 338 | Canda Copying Limited | Copiau Lliw | 93.78 |
| 339 | Cyngor Sir Ddinbych | Costau Etholiad | 19,134.12 |
| 340 | BJS Solutions | Contract TGCh 2017 | 1,554.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B: Taliadau i'w Cymeradwyo** | | | **21,109.01** |

b) *Yr ychwanegiadau canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy i'w cymeradwyo*

- Handmade Buffet Company – arlwyo ar gyfer Dydd Sul Dinesig
- Mike Lewis – llwyfan a generadur ar gyfer Digwyddiad Beatles Street

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r atodlenni i'w talu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Maer.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

## 47. <u>CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN GORFFENNAF 2017 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2017/18</u>

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb ac adroddodd warged cyfan o £41,134 diolch i arbedion a wnaed dan nifer o benawdau cyllideb.

Gan gyfeirio at atodiad B, holodd aelod ynglyn â'r gyllideb ddechreuol o £60,000 ar gyfer Cynnal a Chadw Tiroedd, gan eu bod yn meddwl mai £65,000 ydoedd.

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cyngor wedi cymeradwyo gostyngiad o £5,000 i'r gyllideb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ym mis Ionawr 2017, a oedd oherwydd yr arbedion arwyddocaol a wnaed gan yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd.

Mewn perthynas ag atodiad B, Mannau Cyhoeddus – Llochesi Bws yn cynnwys Glanhau, adroddodd aelod bod llochesi'r Promenâd yn eithaf budr.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn am gael glanhau'r llochesi glan y môr ar y Promenâd.*

**48. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU**

Cyflwynodd Clerc y Drfef ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar fuddsoddiadau'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**49. ADRODDIAD SEIBIANT MIS AWST**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn rhoi manylion y camau a gymerwyd ganddo ef a'r Cadeirydd neu Is-gadeirydd priodol yn ystod y seibiant, i'r aelodau eu cydnabod a'u cadarnhau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r holl gamau gweithredu.*

**50. CYFOETH NATURIOL CYMRU – WARDENIAID LLIFOGYDD**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gohebiaeth gan yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â chynnig i gyfarfod cynghorwyr tref i drafod rôl Wardeniaid Llifogydd y dref a'r Cynllun Llifogydd Cymunedol a hefyd i hysbysu am yr ymarfer llifogydd aml-asiantaeth sy'n digwydd yn y Rhyl ym mis Hydref ar gyfer ardal Dwyrain y Rhyl.

Nododd nifer o aelodau a oedd yn wardeniaid llifogydd eu rhwystredigaeth nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cysylltu gyda nhw o gwbl yn ystod unrhyw lifogydd yn y gorffennol yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD:***

*i) Derbyn y gwahoddiad i gyfarfod gyda'r cynghorwyr a oedd hefyd yn wardeniaid llifogydd.*

*ii) Y Cynghorydd Miss C. L. Williams i fynychu'r ymarfer yn y Rhyl ym mis Hydref.*

*iii) Y Cynghorwyr A. S. Johnson a Ms J. L. McAlpine i'w hychwanegu at y rhestr o wardeniaid llifogydd.*

**51. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR – SPORTED NORTH WALES**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gohebiaeth gan yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), sef Ms Debra Barker, i gyflwyno ei hun a chynnig i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ar waith Sported North Wales.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**52. EITEM GAN AELOD: RHAGLEN CYNNAL A CHADW LLOCHESI BWS**

Yn absenoldeb y Cynghorydd B Jones, cyfeiriodd y Cynghorydd T Thomas at graffiti annymunol a ysgrifennwyd yn ddiwedd ar wal yn agos at loches bws yn ardal archfarchnad Sainsburys, fel yr adroddwyd gan y Cynghorydd Jones yn ystod yr haf.

Nododd y Cynghorydd Thomas siomedigaeth y Cynghorydd Jones gydag ymateb araf Clerc y Dref i'r mater hwn.

Dywedodd Clerc y Dref bod ei ymchwiliadau i bwy oedd berchen y wal wedi cymryd peth amser gan fod pawb yr oedd wedi cysylltu â nhw (Cyngor Sir Ddinbych, Sainsburys, Arrivaa) wedi dweud nad nhw oedd yn gyfrifol amdano. Roedd perchennog y wal yn dal yn ddirgelwch, ond roedd Cyngor Sir Ddinbych, yn garedig, wedi cael gwared ohono.

Dywedodd aelod bod y parc manwerthu cyfan ym meddiant cwmni rheoli.

## 53. EITEM GAN AELOD: PARCIO AR GARNETT AVENUE

Yn absenoldeb y Cynghorydd B. Mellor, dywedodd Clerc y Dref bod trigolion ar Garnett Avenue wedi cwyno am geir yn parcio o flaen eu heiddo tra'r oedd y maes parcio yn Eglwys y Santes Fair yn cael ei ailwynebu, ac felly ddim yn cael ei ddefnyddio.

Roedd y Tad Ramsey wedi gofyn i blwyfolion barcio'n barchus yn ystod y cyfnod hwn ac wedi ymddiheuro am unrhyw anhwylustod.

Roedd y gwaith bellach wedi ei gwblhau.

## 54. EITEM GAN AELOD: CAIS I DDEFNYDDIO SIAMBR Y CYNGOR

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones, ar ran Asiantaeth Fabwysiadu Gogledd Cymru, am ganiatâd yr aelodau i'r asiantaeth ddefnyddio Siambr y Cyngor a'r Ystafell Gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn gan nad oedd eu lle presennol yn Nhŷ Russell yn y Rhyl yn addas ar gyfer gwaith cyfrinachol yr asiantaeth.

Esboniodd y Cynghorydd Chamberlain-Jones bod pob sesiwn yn dwyn ynghyd ddarpar rieni maeth a mabwysiadu gyda gweithwyr cymdeithasol a'r panel maethu a mabwysiadu, lle byddai penderfyniadau yn cael eu cymryd ynglŷn â'u haddasrwydd.

Ychwanegodd y Cynghorydd Chamberlain-Jones bod y panel yn dod â'u te a'u coffi eu hunain, ac y byddai cinio'n cael ei ddarparu gan arlwywr a drefnwyd gan yr asiantaeth, felly ni fyddai unrhyw faich ar adnoddau'r Cyngor Tref.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â bod eisiau lletya'r asiantaeth a gosod cynsail i grwpiau eraill o weithwyr yn gwneud gwaith sensitif mewn amodau anaddas, megis gweithwyr cymdeithasol yn Nhŷ Russell, a gallu'r asiantaeth i fforddio ystafelloedd amgen yn y Rhyl cyn cysylltu gyda'r Cyngor Tref.

Dywedodd y Cynghorydd Chamberlain-Jones bod yr asiantaeth wedi ystyried llogi ystafelloedd yng Nghanolfan Gymunedol Wellington, ond nad oedd yn bodloni'r gofynion cyfrinachedd.

O roddi'r mater i bleidlais, ***PENDERFYNWYD*** *bod y cais yn llwyddiannus. Y Cynghorydd Chamberlain-Jones i ofyn i'r asianteth gysylltu â Chlerc y Dref i drefnu dyddiadau ac amserau addas.*

**55. EITEM GAN AELOD: RHEOLWR NEWYDD CANOLFAN Y WHITE ROSE**

Gofynnodd y Cynghorydd T. Thomas am gefnogaeth yr aelodau i wahodd y rheolwr newydd, Ms Sue Nash, i gyflwyno ei hun mewn cyfarfod o'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais, ond cyfyngu'r cyflwyniad i 15 munud i alluogi ffitio dau gyflwyniad ar raglen yn y dyfodol.*

**56. EITEM GAN AELOD: 'RHYL HEYDAYS'**

Yn absenoldeb y Cynghorydd B. Jones, dywedodd y Cynghorydd T. Thomas, oherwydd problemau trwyddedu ac amserlenni, na fyddai'r digwyddiad arfaethedig nawr yn digwydd tan fis Mehefin 2019.

**57. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau y byddai Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

**58. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**59. PWYLLGOR STAFF - SEFYDLIAD**

Adroddodd Clerc y Dref am gais yn ddiweddar gan y Swyddog Cyllid, i leihau ei oriau o 15 i 11 awr yr wythnos, a gytunwyd gan y Pwyllgor Staff am gyfnod prawf o chwe mis yn dechrau ar 1af Awst, gyda pheth hyblygrwydd o gwmpas adegau prysurach y swydd.
***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**60. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**61. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:……………….…….

Dyddiad:………………………